# Rhaglen datrys gwrthdaro i ysgolion

*Mae'r prosiect hwn yn gydweithrediad rhwng y Gronfa Waddol Ieuenctid (YEF), y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF), y Tîm Mewnwelediadau Ymddygiadol (BIT) ac IOE, Cyfadran Addysg a Chymdeithas UCL*

**Cysylltwch â grassroots@bi.team nawr i fynegi eich diddordeb**


## Crynodeb

- Rydym yn gwahodd ysgolion uwchradd gwladol prif ffrwd yn eich rhanbarth i gymryd rhan mewn treial newydd cyffrous o raglen sy'n grymuso disgyblion i feithrin cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol yn yr ysgol.
- Bydd yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn cael:
  - **NAILL AI rhaglen Grassroots (am ddim!) NEU £750.**
  - A £500 os bydd eich ysgol yn cymryd rhan mewn astudiaeth achos e.e. cyfweliadau a grwpiau ffocws.
  - Mynediad at y cwricwlwm Grassroots llawn (**a wnaeth leihau'r gwrthdaro rhwng disgyblion hyd at 60% yn yr Unol Daleithiau**) ar ôl y treial.
  - Y cyfle i weithio gyda'r YEF a'r EEF i adeiladu tystiolaeth arloesol ar yr hyn sy'n gweithio i leihau bwlio a gwrthdaro mewn ysgolion.
  - Cyfle i gael ymweliadau am ddim bob pythefnos gan hwylusydd hyfforddedig, a fyddai'n cefnogi grŵp o ddisgyblion i ledaenu ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol yn eich ysgol.


## Beth?

Rydym yn cynnal y treial cyntaf erioed yn y DU ar gyfer rhaglen Grassroots. Nod y rhaglen yw lleihau bwlio a gwrthdaro mewn ysgolion drwy rymuso grŵp o tua 30 o ddisgyblion i gael effaith gadarnhaol ar eu cyfoedion. Mae pob disgybl Blwyddyn 7-10 yn llenwi arolwg sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod grŵp o tua 30 o fyfyrwyr Blwyddyn 7-9 sydd, rhyngddynt, yn gallu cynrychioli corff cyfan y myfyrwyr. Bydd y disgyblion hyn yn ffurfio 'grŵp cychwynnol' ac yn mynychu 10 sesiwn bob pythefnos i greu gweithgareddau pwrpasol i leihau gwrthdaro yn yr ysgol. Bydd nifer fach o ddisgyblion Blwyddyn 10 yn cael eu dewis hefyd i weithredu fel 'cynghorwyr arbennig' i'r grŵp o bryd i'w gilydd.

Yn ystod y sesiynau hyn, bydd hwyluswyr Grassroots yn cefnogi disgyblion i wneud y canlynol:

- Nodi meysydd i'w gwella o ran rhyngweithio â myfyrwyr.
- Creu datrysiadau posibl (e.e. gweithgareddau y gallent eu gwneud).
- Darparu cyfleoedd ar gyfer gweithredu.
- Gwneud mentrau'n weladwy i eraill.

Canfu astudiaeth fawr yn yr Unol Daleithiau fod yr ymyrraeth hwn (sydd bellach wedi cael ei addasu ar gyfer ysgolion y DU) wedi lleihau gwrthdaro rhwng myfyrwyr hyd at 60%. Roedd y disgyblion yn teimlo eu bod wedi cael eu grymuso gan y sesiynau hyn ac wedi dechrau gweithgareddau fel herio eu hunain i ddangos ymddygiadau cymdeithasol-gadarnhaol, rhannu negeseuon cadarnhaol gan ddefnyddio posteri a chyfryngau cymdeithasol, a rhannu breichledau â myfyrwyr a oedd wedi gwneud safiad yn erbyn bwlio.

## Sut?

Rydym yn profi effaith Grassroots gan ddefnyddio hap-dreial wedi'i reoli (RCT). Mae hyn yn golygu y bydd yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn y treial yn cael eu dyrannu ar hap naill ai i fod yn rhan o'r **grŵp ymyrraeth** neu'r **grŵp rheoli**. Bydd ysgolion sy'n rhan o'r **grŵp ymyrraeth** yn derbyn y rhaglen ym mlwyddyn ysgol 2023-2024.

Bydd ysgolion y **grŵp rheoli** yn derbyn £750 i gymryd rhan yn y gweithgareddau gwerthuso ond, fel arall, byddant yn parhau â'u harferion arferol y flwyddyn nesaf, ac ni fyddant yn gweithredu Grassroots. Byddant yn cael mynediad i'r cwricwlwm ar ddiwedd y treial.

## Pryd?

Bydd y treial yn dechrau ym **mis Medi 2023** ond mae nifer y lleoedd i ysgolion yn gyfyngedig, felly cofrestrwch heddiw!

## Beth yw'r manteision i fy ysgol?

Drwy gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, bydd eich ysgol yn cael:

- **NAILL AI rhaglen GRASSROOTS (am ddim!) NEU £750.**
- **£500 ychwanegol** os bydd eich ysgol yn cymryd rhan mewn astudiaeth achos e.e. cyfweliadau a grwpiau ffocws.
- Y cyfle i'ch ysgol **weithio gyda'r YEF a'r EEF i adeiladu tystiolaeth arloesol** ar yr hyn sy'n gweithio i leihau bwlio a gwrthdaro mewn ysgolion.
- Mynediad at y cwricwlwm Grassroots llawn (a wnaeth leihau'r gwrthdaro rhwng disgyblion hyd at 60% yn yr Unol Daleithiau).
- Cyfle i gael ymweliadau am ddim bob pythefnos gan hwylusydd hyfforddedig, a fyddai'n cefnogi grŵp o ddisgyblion i ledaenu ymddygiad cymdeithasol cadarnhaol yn eich ysgol.

## Faint fydd hyn yn ei gostio i fy ysgol?

Mae cymryd rhan yn **rhad ac am ddim.** Telir yr holl gostau gan YEF ac EEF.

## Faint o amser fydd ei angen?

Nid oes angen llawer o amser ac adnoddau gan ysgolion i roi'r rhaglen ar waith.

Bydd angen i ysgolion wneud y canlynol:

- Rhannu taflen wybodaeth a ffurflen tynnu'n ôl gyda holl rieni'r grwpiau blwyddyn sy'n cymryd rhan.
- Llwytho data disgyblion i fyny i'r gwerthuswyr.
- Galluogi disgyblion i gwblhau arolwg ar-lein yn nhymor yr Hydref 2023 a Thymor yr Haf 2024.
- Ysgolion ymyrraeth yn unig: casglwch ffurflenni cydsynio gan rieni disgyblion y 'grŵp cychwynnol' a helpwch i drefnu ystafell ar gyfer y 10 sesiwn bob pythefnos (a hwylusir gan gynorthwyydd ymchwil Grassroots a wiriwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).

## Sut bydd y rhaglen yn cael ei gwerthuso?

Bydd arolygon a data'r ysgol ar wrthdaro ac ymddygiad disgyblion yn cael ei ddefnyddio i fesur effaith yr ymyrraeth.

Bydd y gwerthuswyr (IOE) hefyd yn ystyried a yw'r ymyrraeth yn gwella presenoldeb disgyblion. I wneud hyn, byddant yn defnyddio data presenoldeb a gesglir yn rheolaidd.

Er mwyn deall gweithrediad yr ymyrraeth, bydd y gwerthuswyr yn arolygu disgyblion ac athrawon cychwynnol ac, mewn nifer fach o ysgolion, yn cynnal cyfweliadau ag athrawon a grwpiau ffocws i ddisgyblion.

### Sut bydd rhannu data yn gweithio?

Bydd gofyn i ysgolion sy'n cymryd rhan ddarparu data am ddisgyblion (gan gynnwys enw'r disgybl, dyddiad geni, rhif unigryw'r disgybl (neu god post ar gyfer ysgolion yng Nghymru), grŵp tiwtor, grŵp blwyddyn, cymhwysedd prydau ysgol am ddim, adroddiadau rhyw, ethnigrwydd a disgyblu) er mwyn hwyluso'r gwerthusiad a galluogi cysylltiadau â Chronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (neu'r hyn sy'n cyfateb yng Nghymru).

Bydd yr holl ddata personol a gesglir fel rhan o'r astudiaeth yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol gan dîm y prosiect ac yn cael ei brosesu yn unol â gofynion y GDPR a Deddf Diogelu Data 2018. Mae BIT wedi cynnal astudiaethau ymchwil mewn dros 400 o ysgolion ledled y wlad ers cyflwyno GDPR ym mis Mai 2018, gan gynnwys 16 o dreialon a ariannwyd gan EEF.

Bydd rhagor o fanylion am union rolau pob aelod o dîm y prosiect mewn perthynas â phrosesu data personol yn cael eu cynnwys mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a thaflen wybodaeth i rieni y byddwn yn eu rhannu maes o law.

### Tîm y Prosiect

Mae hon yn astudiaeth fawr ac mae nifer o sefydliadau gwahanol yn cydweithio arni:

- **Tîm Mewnwelediad i Ymddygiad (BIT)** - *Y prif sefydliad y bydd eich ysgol yn dod i gysylltiad ag ef yn ystod yr astudiaeth hon* - mae BIT yn gwmni gyda phwrpas cymdeithasol sy'n creu ac yn cymhwyso mewnwelediadau am ymddygiad i sbarduno newid cadarnhaol ac i helpu pobl, cymunedau a sefydliadau i ffynnu. Yr elusen arloesi Nesta sy'n berchen ar BIT.
- **IOE, Cyfadran Addysg a Chymdeithas UCL** - *Y gwerthuswyr annibynnol* - Mae ganddynt arbenigedd mewn cynnal gwaith ymchwil mewn ysgolion a gwaith ymchwil ym maes bwlio ac erledigaeth.
- **Y Gronfa Waddol Ieuenctid (YEF)** – *Cyllidwyr* – Elusen sy'n ymroddedig i atal plant a phobl ifanc rhag ymwneud â thrais. Maen nhw'n gwneud hyn drwy gynnal prosiectau i ganfod beth sy'n gweithio ac yn helpu pobl i roi'r hyn sy'n gweithio ar waith.
- **Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (EEF)** – *Cyllidwyr* – Elusen annibynnol sy'n ymroddedig i dorri'r cysylltiad rhwng incwm teuluoedd a chyflawniad addysgol. Maen nhw'n rhedeg prosiectau sy'n profi effeithiolrwydd ymyraethau addysg i gynhyrchu tystiolaeth newydd o'r hyn sy'n gweithio.

### Dyddiadau allweddol / amserlen

| Mis | Gweithgaredd |
|---|---|
| **Chwefror 2023 - Mehefin 2023** | Ysgolion yn cofrestru ar gyfer y prosiect (y cyntaf i'r felin!). |

| | |
|---|---|
| **Tymor yr Hydref 2023** | Ysgolion yn anfon y daflen wybodaeth at rieni, yn cyflwyno data disgyblion ac yn cwblhau arolygon. |
| **Ionawr 2024 – Gorffennaf 2024** | Hwyluswyr Grassroots yn cynnal sesiynau bob pythefnos gyda’r disgyblion cychwynnol.<br>Disgyblion y grŵp cychwynnol yn cynnal y gweithgareddau y maen nhw wedi’u cynllunio yn eu hysgolion. |
| **Haf 2024** | Ysgolion yn cwblhau arolygon ac yn llwytho data disgyblion i fyny. |
| **Haf 2025** | Cyhoeddi canlyniadau’r prosiect. |

## Y camau nesaf

Dim ond hyn a hyn o lefydd sydd gennym ar gyfer y prosiect hwn. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, **anfonwch neges e-bost at grassroots@bi.team** neu **sganiwch y cod QR**. Edrychwn ymlaen at glywed gennych yn fuan.